

Awgrymiadau da ar gyfer gweithio hybrid yn y sector treftadaeth

22/04/2022



Wrth i lawer o sefydliadau treftadaeth ystyried ffyrdd newydd o weithio, mae arweinwyr digidol yn archwilio'r cyfleoedd a'r heriau sydd ar y gorwel.

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi gyrru llawer o sefydliadau treftadaeth i gymryd y naid i weithio hybrid. Dyma lle mae staff a gwirfoddolwyr yn rhannu eu hamser rhwng gweithio mewn swyddfa a lleoliadau eraill fel eu cartref.

Ym mis Mawrth, cymerodd uwch weithwyr treftadaeth proffesiynol ran yn y weminar gyntaf o'r [rhaglen Arwain y Sector](#), a oedd yn edrych ar arfer gorau ar gyfer gweithio hybrid a sut i addasu i'r ffordd newydd hon o weithio.

Rwy'n credu bod y pandemig wedi gorfodi arbrofion arnom i gyd sydd wedi chwalu'r syniad hwn o beth yw gwaith, beth yw'r swyddfa, sut beth ddylai'r diwylliant fod.

Zak Mensah, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham

Caiff Arwain y Sector ei gynnal gan Culture24 a'i gefnogi gan fenter Sgiliau Digidol y Gronfa Treftadaeth.

Y tri siaradwr oedd:

- Zak Mensah, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham (prif siaradwr)
- Lisa Westcott Wilkins, Rheolwr Gyfarwyddwr DigVentures
- Mark Bishop, Cyfarwyddwr Cwsmer ac Achos yn Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban

Rydym wedi crynhoi'r uchafbwyntiau o'r sgwrs i'ch helpu i arbrofi gyda gweithio hybrid yn eich sefydliad.



Gair i gall gan Zak Mensah

Canolbwyntio ar ddiwylliant gwaith ac iechyd meddwl

- canolbwyntio ar gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl
- sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith
- fel enghraifft – cofnodi cyfarfodydd rhithwir fel y gall y rhai na allent fynychu wyllo i'w helpu i deimlo'n llai ynysig ac yn fwy cysylltiedig â'r tîm

Dylunio contractau cymdeithasol



Awgrymiadau da gan Lisa Westcott Wilkins

- mae contract cymdeithasol yn gytundeb rhyngoch chi a'ch cydweithwyr ar sut a phryd i gysylltu â'ch gilydd
- gall fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol
- mae'n cefnogi iechyd meddwl pobl a gall helpu i greu lle diogel iddynt

Adeiladu amser paratoi ar gyfer cyfarfodydd hybrid

- gall gymryd hyd at dair gwaith cyhyd i drefnu cyfarfod hybrid
- paratoi sut y bydd y cyfarfod hybrid yn gweithio, megis gwirio'r offer yn barod
- sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan o bell yn cael yr un cyfleoedd i gyfrannu â'r rhai yn yr ystafell



Arferion gorau gan Mark Bishop

Cael canllaw gweithio hybrid

- cynnwys canllawiau ar beth yw gweithio hybrid, pa rolau sy'n gymwys, beth yw'r rheolau gwahanol ar gyfer gweithio yn y cartref a'r swyddfa
- sicrhau bod pawb yn rhan o'r gwaith o greu'r canllawiau
- ceisio bod yn hyblyg

Mae rhoi hyblygrwydd i rywun yn rhoi ymddiriedaeth iddynt

- gweithio hybrid yn agor cyfleoedd ar gyfer hyblygrwydd
- mae'n dangos i staff eich bod yn ymddiried ynddynt, sy'n allweddol i weithio o bell

Heriau a sut i'w goresgyn

Efallai na fydd cartref yn lle diogel i bawb

- trefnu archwiliadau rheolaidd, boed yn ddigidol neu'n bersonol
- caniatáu i bobl weithio o'r swyddfa pan fydd angen iddynt nid yn unig, ond eisiau
- creu contractau cymdeithasol

Mae rhai rolau yn fwy hybrid nag eraill a allai achosi rhywfaint o ddrwgdeimlad

- ceisio rhoi hyblygrwydd i bawb yn y sefydliad
- gofyn i bawb pa fanteision eraill y gallent eu defnyddio yn lle gweithio gartref
- cael arweiniad clir ar y gwahanol rolau o fewn y sefydliad

Cymerwch ran yn y seminar am ddim nesaf

Gwylwch gwestiynau ateb y panel a thrafodwch weithio hybrid ymhellach yn y fideo uchod.


[Darganfyddwch beth sydd ar y gweill yn y rhaglen Arwain y Sector.](#)

Rhagor o wybodaeth

Mae Arwain y Sector yn rhan o'n menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth gwerth £3.5 miliwn, a gynlluniwyd i godi sgiliau a hyder digidol ar draws sector treftadaeth y Deyrnas Unedig gyfan.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau a'r cyfleoedd hyn a phrosiectau a chyfleoedd eraill:

- [cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr](#) a dewiswch y dewis 'digidol'
- ewch i'n tudalen [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#)



rdeb hefyd mewn ...

[Dathlu dwy flynedd o Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#)



[At the Hunterian Museum Credit: The Hunterian 364](#)



[at lwyddiant digidol](#)

[Developing digital leadership in heritage](#)